REPs
The Register of Exercise Professionals
PART OF THE SKILLSACTIVE GROUP

Beth yw CSYP?

(Cofrestr o Swyddogion Ymarfer Proffesiynol).

Mae CSYP yn Gofrestr gyhoeddus ac annibynnol sy'n cydnabod cymwysterau ac arbenigedd hyfforddwyr ymarfer sy'n gwella iechyd yn y DU. Un o'n prif swyddogaethau yw darparu system o reoleiddio ar gyfer hyfforddwyr ac arweinwyr i sicrhau eu bod yn bodloni safonau galwedigaethol cenedlaethol cytunedig y diwydiant iechyd a ffitrwydd.

Follow us on: @REPsUK www.facebook.com/REPSUK www.exerciseregister.org

Beth yw swyddogaeth CSYP?

Mae aelodaeth o CSYP yn rhoi sicrwydd a hyder i ddefnyddwyr, cyflogwyr a'r proffesiwn iechyd bod yr holl swyddogion ymarfer proffesiynol cofrestredig wedi cymhwyso'n briodol a bod ganddynt wybodaeth, medrusrwydd a sgiliau i gyflawni swyddogaethau penodol.

Yn benodol yng Nghymru:

Mae'n rhaid i hyfforddwyr sy'n ymwneud â chyflwyno prosiectau cysylltedig â ffitrwydd a gefnogir gan gyllid Chwaraeon Cymru fod wedi'u cofrestru gyda CSYP. Mae gan Gymru ei swyddog CSYP penodol ei hun, sef John Byers, a gellir cysylltu â John ar **wales@exerciseregister.org** neu **02920 444150**

Pwy yw ein haelodau?

Mae ein haelodaeth yn agored i bob swyddog ymarfer a ffitrwydd proffesiynol sy'n gweithio fel y canlynol:

- Hyfforddwyr campfa
- Athrawon gweithgareddau dŵr
- Hyfforddwyr Ymarfer Grŵp i Gerddoriaeth
- Hyfforddwyr personol
- Athrawon ioga
- Hyfforddwyr Pilates
- Hyfforddwyr Cyfeirio at Ymarfer
- Hyfforddwyr sy'n gweithio gyda phoblogaethau arbennig e.e. cyn ac ôl eni, oedolion hŷn, anableddau
- Athrawon y Bartneriaeth Ymarfer, Symudiad a Dawns
- Hyfforddwyr Ymarfer Adferiad Cardiag Cam IV
- Hyfforddwyr Sefydlogrwydd Ystum
- Hyfforddwyr Poen Gwaelod y Cefn
- Cyflyrau meddygol eraill e.e. gordewdra/y clefyd siwgr, adfer o ganser, iechyd meddwl
- Hyfforddwr Adfer (Milwrol Yn Unig)

Pa gymwysterau a gydnabyddir gan CSYP?

Manylir ar y cymwysterau a dderbynnir ar gyfer cofrestru yn ein **Porthol Cymwysterau a Hyfforddiant**. Mae'r rhestr hon yn cael ei diwygio a'i diweddaru'n rheolaidd. Os oes gennych radd Addysg Uwch gallwch gofrestru drwy ddilyn ein proses ar-lein ar gyfer **Ymuno gyda Chymwysterau Addysg Uwch**. Y cymwysterau safonol a ddefnyddir gan aelodau CSYP i gofrestru yw Lefel 2, Hyfforddwr Campfa neu Ymarfer i Gerddoriaeth, a Lefel 3, Hyfforddwr Personol.

Pa gymwysterau nad yw CSYP yn eu cydnabod?

Mae'r esiamplau uchod yn 'gymwysterau mynediad' a gallwn sicrhau bod yr hyfforddwr wedi cyrraedd y safonau gofynnol, ac wedi cael ei asesu yn erbyn y safonau cenedlaethol (a rhyngwladol) hyn. Bydd cymwysterau a chyrsiau ychwanegol yn adeiladu ar y safonau gofynnol hyn fel Swmba, Beicio Dan Do, Dawnsio Stryd a Bocsarfer. Nid yw'r cyrsiau ychwanegol hyn, a elwir hefyd yn gyrsiau DPP, yn sicrhau lle ar CSYP ar eu pen eu hunain – bydd rhaid i'r hyfforddwr ddangos tystiolaeth o'i gymhwyster mynediad cyn y caiff gofrestru.

Ni fydd cymwysterau Hyfforddiant Chwaraeon, Dawns neu Grefftau Ymladd yn sicrhau lle ar CSYP oherwydd nid ydynt yn mapio gofynion gwybodaeth swyddog ymarfer proffesiynol. Fodd bynnag, efallai y bydd darparwyr hyfforddiant y diwydiant ffitrwydd yn gallu ystyried Cydnabod Dysgu Blaenorol fel bod yr ymgeisydd yn gallu cwblhau papur theori a/neu asesiad ymarferol yn lle cwblhau cymhwyster llawn. Mae hwn yn opsiwn hefyd i bobl sydd wedi cwblhau cymwysterau hŷn neu sydd â chymwysterau o dramor.

Beth yw DPP?

DPP (datblygiad proffesiynol parhaus) yw'r mecanwaith y mae CSYP yn ei ddefnyddio i sicrhau bod ei haelodau'n cael yr hyfforddiant diweddaraf. Mae'n rhaid i aelodau ennill 12 pwynt DPP ar gyfartaledd bob blwyddyn a gellir cael y rhain drwy fynychu cyrsiau a chynadleddau, cwblhau cwestiynau ac arholiadau ar-lein, a chwblhau cyrsiau a chymwysterau a asesir.

yn parhau ar y dudalen nesaf...

Beth yw DPP? parhad

Mae pwynt DPP yn cyfateb yn fras i un awr o waith felly rhwng 3 ac 8 pwynt y dydd (dim ond os yw'r dysgu'n cael ei asesu mae 6-8 pwynt yn cael eu rhoi). Nid yw'n fwriad i'r DPP fod yn feichus nac yn ddrud – er enghraifft, mae Cynhadledd undydd CSYP yn darparu 3 pwynt DPP ac yn costio £45, ac mae CSYP yn cynnig profion DPP am ddim drwy ei gwefan **(www.exerciseregister.org/members/technical-articles).**

Ceir rhagor o wybodaeth am DPP ar wefan CSYP www.exerciseregister.org/members/cpd

Sut mae cofrestru gyda CSYP:

Gellir cofrestru ar-lein drwy lanlwytho'r gwaith papur perthnasol neu drwy anfon y gwaith papur sy'n ofynnol i brif swyddfa CSYP. Mae CSYP eisiau copïau o gymwysterau (gan gynnwys llythyr o ddilysrwydd i gadarnhau bod person priodol wedi gweld y dogfennau gwreiddiol), copi o'r polisi yswiriant neu gadarnhad cyflogwr/clwb (rhagor o fanylion isod), ac mae CV penodol i'r diwydiant yn ddefnyddiol hefyd. Bydd y dolenni canlynol yn mynd â chi'n uniongyrchol at yr adnoddau ymuno a chofrestru ar-lein:

www.exerciseregister.org/registration/find-the-correct-joining-pathway

www.exerciseregister.org/members/registration-resources

Cost

Mae cofrestru gyda CSYP yn costio £40 y flwyddyn ac mae polisi yswiriant atebolrwydd sifil gwerth £10 miliwn CSYP **yn £55 yn ychwanegol**. Os yw'r aelod yn darparu gwasanaeth Tylino Chwaraeon, mae opsiwn hefyd o yswiriant ychwanegol i warchod y gweithgareddau hyn, **a'r gost ychwanegol yw £40**.

Yswiriant

Os na fyddwch yn prynu yswiriant drwy CSYP, dylech gynnwys copi o'ch polisi yswiriant eich hun, neu os yw polisi eich cyflogwr/clwb yn eich gwarchod, rhaid darparu llythyr wedi'i lofnodi gan eich cyflogwr/clwb yn cadarnhau hyn.

Ceir rhagor o wybodaeth am gynllun yswiriant CSYP yn www.exerciseregister.org/members/reps-insurance

Manteision cofrestru gyda CSYP

- Mae bod yn aelod o CSYP yn golygu eich bod yn cyrraedd y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol y cytunwyd arnynt sy'n disgrifio gwybodaeth, medrusrwydd a sgiliau arfer da h.y. mae gennych gymwysterau cydnabyddedig a chymeradwy. Rydych wedi ymrwymo hefyd i ddatblygiad proffesiynol parhaus, ac mae gennych yswiriant priodol.
- Drwy gofrestru gyda CSYP rydych yn gwella eich cyflogadwyedd gan fod nifer o gyflogwyr yn y diwydiant ffitrwydd yn gofyn am gofrestriad gyda CSYP. Hefyd rydych yn ennill cydnabyddiaeth ryngwladol drwy'r Conffederasiwn Rhyngwladol.
- Caiff aelodau CSYP ddefnyddio ein gwasanaethau hefyd, fel Safle'r Aelodau, polisi yswiriant CSYP, llinell gymorth gyfreithiol 24 awr, porthol hyfforddiant, a gweithgareddau ymchwil.
- Mae aelodau CSYP yn derbyn e-gylchgronau misol yng Nghylchgrawn CSYP bob 4 mis a gostyngiad ar fynediad i Gynadleddau CSYP sy'n cael eu cynnal ledled y DU.
- Mae aelodau CSYP yn cael gostyngiadau niferus drwy ein partneriaid amrywiol.